

Mwy na Llyfr Cynllun 'More Than A Book' Cymdeithas y Beibl.

Os oes unrhyw un yn prynu llyfr neu nwyddau eraill o wefan Cymdeithas y Beibl (Bible Society) mae'n bosibl i'r Ofalaeth gael 10% o'r arian a wariwyd gennych. Mae'n ddigon hawdd trefnu hyn. Y cwbl sydd angen ei wneud ydi pwyso'r tab 'More Than A Book' ar y dudalen 'Your Basket' cyn i chi dalu am y nwyddau. Wedi pwyso ar 'More Than A Book', chwiliwch yn rhestr yr eglwysi (trwy ddewis 'Wales' ac yna 'Gwynedd') am yr Ofalaeth dan yr enw 'Gofalaeth Unedig Deiniolen', a phwyso ar hwnnw. [Rydym yn dal i ddefnyddio hen enw'r Ofalaeth ar gyfer y cynllun ar hyn o bryd, ond mi rof wybod i chi os llwyddwn i'w newid i'r enw newydd cyn bo hir.] Felly, os byddwch yn prynu o'r wefan hon, cofiwch fod modd cael arian nôl i'r Ofalaeth. Swm bychan a gawn, ond o geiniog i geiniog yr â'r arian yn bunt.

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Dydd Sul, Rhagfyr 2 Gwasanaethir am 3.30 o'r gloch yn Nhŷ Elidir gan y Gweinidog.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Dydd Sul, Rhagfyr 2: Gwasanaethir am 10.00 o'r gloch gan y Parchg Gwynfor

Y mis nesaf - Deiniolen

Oedfaon yn Nhŷ Elidir

Rhagfyr 2

3.30 p.m. - Y Gweinidog

Rhagfyr 9

3.30 p.m. - Y Parchg Gwynfor Williams

Rhagfyr 16

5.00 p.m. - Y Gweinidog

Williams. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch. Bydd oedfa am 5.00 o'r gloch yng ngofal aelodau Parti Bytholwyrdd. **Nos Fawrth, Rhagfyr 4:** Y Gymdeithas Undebol am 7.00 o'r gloch. Y Prifardd Myrddin ap Dafydd fydd y gŵr gwâdd.

CARMEL

Dydd Llun, Tachwedd 26: Dosbarth Gwau am 2.00 o'r gloch.

Nos Wener, Tachwedd 30: Cynhelir cyfarfod Dwylo Prysus am 6.30 o'r gloch.

Dydd Sul, Rhagfyr 2: Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch. Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

BETHLEHEM

Dydd Iau, Tachwedd 29: Bwrlwm am 2.15 o'r gloch.

Dydd Sul, Rhagfyr 2: Ysgol Sul am 10.00 o'r gloch. Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Parchg Elwyn Richards.

REHOBOTH

Dydd Sul, Rhagfyr 2: Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Y mis nesaf - Llanberis

Rhagfyr 2

10.00 a.m. - Y Parchg G Williams

11.15 a.m. - Ysgol Sul

5.00 p.m. - Parti Bytholwyrdd

Rhagfyr 9

10.00 a.m. - Y Gweinidog

11.15 a.m. - Ysgol Sul

5.00p.m. - Y Gweinidog

Rhagfyr 16

10.00 a.m. - Y Gweinidog

11.15 a.m. - Ysgol Sul

Rhagfyr 23

10.30 a.m. - Oedfa Nadolig y Plant

7.00 p.m. - Cyngerdd Nadolig

Côr Capel Coch a Chyfeillion

Gofalaeth Fro'r
Llechen Las

Rhif 776
25 Tachwedd, 2018
Gronyn

Paradise

Mae'n anodd meddwl fod unrhyw dref arall wedi cael enw mwy anaddas na'r un a roddwyd i hon. Gwyddom fod y dref yn hŷn na'i henw gan iddi gael ei hadnabod wrth bedwar enw blaenorol; ond hyd y gwelaf, nid oes modd dweud i sicrwydd pryd na pham y rhoddwyd yr enw hwn iddi. Awgrymodd rhywun fod un o drigolion y dref, ar ddiwrnod neilltuol o braf ganrif a hanner yn ôl, wedi disgrifio'r lle wrth y gair hwn. Ac mae'n debyg y byddai pobl y dref dros y blynyddoedd wedi cytuno â'r gŵr chwedlonol hwnnw bod Paradise yn 'baradwys o le' i fyw ynddo.

Hawdd yw credu mai dyna darddiad enw'r dref goediog yng Nghaliffornia y clywsom gymaint amdani dros y pythefnos diwethaf. Oherwydd yn ôl pob tystiolaeth yr oedd yn lle braf iawn. Ac eto, tybed a oedd y sawl a roddodd yr enw i'r dref yn gwybod fod y gair Saesneg 'paradise' yn tarddu o un o ieithoedd hynafol Iran ac mai ystyr y gair gwreiddiol oedd 'parc' neu 'ddarn o dir wedi ei amgylchu'? Wedi'r cyfan, dyna oedd Paradise: tref yng nghanol parc coediog; cartrefi a'r holl adeiladau a geir mewn unrhyw dref wedi eu codi'n llythrennol yng nghanol coedwig drwchus.

Beth bynnag yw tarddiad yr enw, mae'n anodd meddwl y bydd neb o hyn allan yn dweud 'paradwys o le' am y dref hon a ddifrodwyd yn llwyr gan y tân a gyneuodd yn gynnar fore Iau, Tachwedd 8. Bu Camp Fire (a enwyd felly am mai yn Camp Creek Road y dechreuodd) wedi llosgi yn Paradise a'r

ardaloedd cyfagos hyd ddiwedd yr wythnos ddiwethaf. Difrodwyd dros 13,000 o gartrefi; lladdwyd o leiaf 83 o bobl; ac er nad oes sicrwydd o'r union niferoedd, ofnir fod cannoedd o bobl eraill 'ar goll' o hyd. Mae gweddillion y dref yn fwy o uffern nag o baradwys erbyn hyn.

O'n paradwys gymharol ein hunain, offrymwn ein gweddiau dros y bobl a ddiodeffodd yng Nghaliffornia: y rhai a golodd anwyliaid; y rhai a anafwyd; y rhai a golodd eu cartrefi a'u holl eiddo; y rhai sydd heddiw heb do uwch eu pen; y rhai a welodd erchyllterau na fydd modd eu hanghofio fyth; y rhai sy'n gweini, yn gofalu, yn ymgeleddu ac yn gweinidogaethu yn enw Iesu Grist yn ardal Paradise. Mewn gair, gweddiwn dros bawb a ddiodeffodd ac a fydd yn parhau i ddiodeff am amser maith.

Mae'n gwbl amhosibl i ni amgyffred y fath ddistryw a'r fath golledion a ddaeth i ran y bobl hyn. Mae'n anodd iawn amgyffred y fath newid a ddaeth i fywydau miloedd lawer o bobl o fewn ychydig oriau, os nad munudau. Ond y mae'r cyfan yn dangos i ni'n eglur iawn mor frau y gall bywyd fod. Un funud roedd popeth yn iawn, a'r funud nesaf roedd popeth ar chwâl. Mae pob math o bethau eraill yn medru chwalu ein byd ninnau. O gofio hynny, ac oherwydd hynny, diolchwn i Dduw bob dydd am y bywyd sydd gennym, a cheisiwn ei nerth i fyw'r bywyd hwnnw i'r eithaf gan fwynhau'r cyfan a roddodd yr Arglwydd i ni.



Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnysaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn (A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Heddiw

Cynhelir Oedfa Deulu yn Capel Coch am 10.30 o'r gloch dan arweiniad Susan Williams a'r Gweinidog.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Geraint Roberts.

Bydd yr Ysgol Sul yn Llanllechid am 10.30 o'r gloch. Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Bydd yr Ysgol Sul yn Nhalybont am 10.00 o'r gloch. Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Nid oes oedfa yn Nant Peris.

Cofion

Anfonwn ein cofion cynhesaf at ein holl aelodau sydd heb fod yn dda ar hyn o bryd. Mae rhai yn yr ysbyty ac eraill gartref ar ôl cyfnod yn yr ysbyty. A chofiw'n hefyd am y rhai sy'n dioddef mewn rhannau eraill o'n byd. "Dad Nefol, gweddiwn dros y bobl sydd wedi dioddef cymaint oherwydd y tânau a

Balm o Salm



"Dyweddod yr ARGLWYDD wrth fy Arglwydd: "Eistedd ar fy neheulaw, nes imi wneud dy elynion yn droedfainc i ti." Y mae'r ARGLWYDD yn estyn i ti o Seion deyrnwialen awdurdod; llywodraetha dithau yng nghanol dy elynion. Y mae dy bobl yn deyrngar iti ar ddydd dy eni mewn gogoniant sanctaidd o groth y wawr; fel gwlyth y'th genhedlais di. Tyngodd yr ARGLWYDD, ac ni newidia, "Yr wyt yn offeiriad am byth yn ôl urdd Melchisedec." Y mae'r Arglwydd ar dy ddeheulaw yn dinistrio brenhinoedd yn nydd ei ddieter. Fe weinydda farn ymysg y cenedloedd, a'u llenwi â chelanedd; dinistria benaethiaid dros ddaear lydan. Fe yf o'r nant ar y ffordd, ac am hynny y cywd ei ben' (Salm 110).

ysgubodd trwy dref Paradise a'r ardal gyfagos yn yr Unol Daleithiau. Nerth a chysura'r rhai sy'n galaru; a galluoga'r bobl a gollodd y cyfan i ddal ati ac i geisio ailadeiladu eu bywydau. Bydd gyda'r rhai sy'n ceisio, er mor anodd, ddwyn gobaith yr Efengyl a chariad Duw i ganol yr amgylchiadau dychrynlyd hyn. A rywsut, galluoga bobl i ddal i ymddiried yn dy ddaioni a'th drugaredd yn Iesu Grist."

Rehoboth a Capel Coch

Ddydd Sul diwethaf, Tachwedd 18, pleidleisiodd aelodau Capel Coch yn unfrydol o blaid y bwriad i uno ag eglwys Rehoboth yn Capel Coch.

Ac felly, y Sul nesaf, Rhagfyr 2, bydd aelodau'r ddwy eglwys yn pleidleisio'n derfynol o blaid yr uno. Bydd y bleidlais yn Capel Coch yn y bore ac yn Rehoboth yn y pawns. Bydd pleidleisiau'r ddwy eglwys yn cael eu cyfrif gyda'i gilydd yn hytrach nag ar wahân. Bwriedir i'r uno ddigwydd ddechrau 2019.

Ffair Nadolig Bethlehem

Cynhelir Ffair Nadolig Capel Bethlehem, Talybont am 6.30 o'r gloch, nos Fercher, Tachwedd 28. Croeso cynnes i bawb.

Ffair Nadolig Capel Coch

Cynhelir Ffair Nadolig Capel Coch am 2.00 o'r gloch ddydd Mawrth, Tachwedd 27. Bydd amryw o stondinau, a derbynir rhoddion neu nwyddau ar gyfer hamperau ac ati. Byddwn yn falch o gyfraniadau at y stondinau cacennau, planhigion, addurniadau Nadolig, tegannau a thlws dlysau mewn cyflwr da.

Nid oes angen llyfrau na bric a brac (neu nwyddau ail law) y tro hwn.

Y pris mynediad fydd £1 (yn cynnwys paned a bisged); a bydd yr elw cyfan at Gronfa'r Capel.

Paned a Mins Peis

Bydd ieuencid Dwylo Pysur yn cynnal Noson Paned a Mins Peis yng Ngharmel rhwng 6.30 a 8.30 o'r gloch nos Wener, Tachwedd 30, gyda byrddau gwerthu a'r elw at Apêl Madagascar.

Cyngerdd Nadolig

Yn dilyn llwyddiant mawr cyflwyniad 'Gair yn Gnawd' yn Capel Coch adeg y Nadolig y llynedd mae Côr Capel Coch a Chyfeilion wedi ail ffurfio ac yn paratoui ar gyfer Cyngerdd Nadolig.

Fe'i cynhelir yn Eglwys Sant Padarn, Llanberis am 7.00 o'r gloch, nos Sul, Rhagfyr 23. Mae tocynnau ar werth am £5 yn Siop Crib Goch, Llanberis (neu gellir talu wrth y drws ar y noson).

Bydd yr elw at waith Cynllun Efe.

Crefft a Stori

Bore Sadwrn, Rhagfyr 8

10.30 – 12.00 o'r gloch

yn Capel Coch, Llanberis

ar gyfer plant o oed Meithrin hyd at Flwyddyn 6

Croeso cynnes

CIC

Cynhaliwyd CIC yn Capel Coch echnos; a diolch i Susan a Dafydd am ei arwain. Bydd y cyfarfod nesaf am 7.00 o'r gloch nos Wener, Rhagfyr 7.

Nos Wener, Rhagfyr 14, byddwn yn mynd i Ganolfan Glasfryn, Y Ffôr, i'r Bowllo 10. Mae angen dychwelyd y ffurflenni a rannwyd nos Wener mor fuan â phosibl.

Apêl Madagascar

Cyflwynwyd Apêl Madagascar 2018–19 Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yng Nghyfarfodydd Blynyddol yr Undeb yn Aberaeron ym mis Mehefin. Gofynnir i bob eglwys sy'n perthyn i'r Undeb i gefnogi'r Apêl sy'n codi arian at wahanol brosiectau sy'n rhan o genhadaeth yr eglwys y mae'r Undeb yn cydweithio â hwy yn y wlad honno.

Nid yw'r Undeb wedi gosod nod ariannol ar gyfer yr eglwys gyda'r apêl hon. Nid oes awgrym y dylem anelu at godi swm penodol, ac felly mae pob eglwys yn rhydd i benderfynu sut y bydd yn ymateb i'r apêl a faint o arian y bydd yn ei godi. Mae'n debyg mai'r egwyddor orau fydd i bob eglwys ymateb yn ôl eu cydwybod yng nghariad Crist.